**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 17 Rhagfyr 2014

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau

**Awdur yr Adroddiad:** Ivan Butler, Pennaeth Archwilio Mewnol

**Teitl:** Caffael Gwasanaethau Adeiladu - Diweddariad

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am waith dilynol diweddaraf Archwilio Mewnol o Gaffael y Gwasanaethau Adeiladu yn dilyn ei adroddiad cychwynnol ym mis Hydref 2013 ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) Mawrth 2014. Dyma'r ail adroddiad dilynol, gyda'r un blaenorol ym mis Medi 2014.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad dilynol pellach ar gyfer Caffael Gwasanaethau Adeiladu i'w gyflwyno i'r Pwyllgor i roi sicrwydd bod gwelliannau wedi'u gwneud ers yr adroddiad ym mis Medi 2014.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad dilynol Archwiliad Mewnol.

- Bod y Pwyllgor yn ystyried a oes ganddo ddigon o sicrwydd bod cynnydd digonol yn cael ei wneud ar y cynllun gweithredu i wella'r gwasanaeth.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Cyhoeddodd Archwilio Mewnol adroddiad ar Gaffael y Gwasanaethau Adeiladu ym mis Hydref 2013 a oedd yn rhoi sgôr sicrwydd 'isel', gyda chynllun gweithredu ar gyfer gwella. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod ".. cryn le i wella. *Trwy ddatblygu ymagwedd strategol, mae potensial i wneud caffael gwaith adeiladu yn llawer mwy effeithlon drwy symleiddio prosesau a'u gwneud yn fwy cyson, gyda'r fantais o ddileu dyblygu."*

Soniodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru â gwaith cynnal a chadw adeiladau ysgolion, gan ddod i'r casgliad "bod angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau caffael presennol i sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian. *Yn ogystal, nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'i reolau gweithdrefn contract presennol."*

Mae'r cynllun gweithredu dilynol yn Atodiad 1 yn cynnwys y 21 o gamau gweithredu gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol a chynlluniau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ers yr adroddiad dilynol cyntaf ym mis Medi 2014, dim ond wyth cam gweithredu sydd wedi cael eu gweithredu'n llawn, er bod pob un o'r camau gweithredu sy'n weddill ar y gweill. Yn arbennig, bu cynnydd o ran datblygu strategaeth gaffael ddrafft a rheolau gweithdrefn y contractau, y mae'r ddau ohonynt yn effeithio ar weithredu nifer o gamau gwella eraill.

**Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.

**5. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes costau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**6. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

**7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal â'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**

Ddim yn berthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ddim yn berthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig

**9. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Ddim yn berthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Ddim yn berthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig